Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyngor Sir | Dyddiad: | Dydd Mercher, 26 Ionawr 2015 |
| | | Rhif Union: | 01824712589 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 3 CHWEFROR 2015** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 7 - 10)

Nodi ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5 COFNODION** (Tudalennau 11 - 28)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar:-

(i) 17 Tachwedd, 2014 (copi ynghlwm).
(ii) 9 Rhagfyr, 2014 (copi ynghlwm).

**6 CYLLIDEB AR GYFER 2015/16** (Tudalennau 29 - 42)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn rhoi diweddariad ar y broses o bennu'r gyllideb ac yn manylu ar gynigion i gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir i osod cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2015/16.

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 43 - 44)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Brian Blakeley (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd)

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
James Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones

Pat Jones
Geraint Lloyd-Williams
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I’R:**

Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant: | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

LOCAL GOVERNMENT ACT 2000

**Code of Conduct for Members**

## DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

I, (*name*)

a *member/co-opted member of **Denbighshire County Council**

*(*please delete as appropriate)*

**CONFIRM** that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-

*(*please delete as appropriate)*

Date of Disclosure:

Committee (*please specify*):

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

Signed

Date

**Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman**

**29.11.14 – 25.01.15**

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event | Lleoliad / Location |
|---|---|---|
| 01.12.14 | Sesiwn tynnu lluniau, Tai Cymru a'r Gorllewin, Ffordd Cefndy<br>Wales and West Housing Photoshoot, Cefndy Road | Y Rhyl/Rhyl |
| 02.12.14 | Pencampwriaeth Byd Bowlio Dan Do dan 25<br>Canolfan Bowls Dan Do Gogledd Cymru<br>World Under 25 Indoor Bowls Championship<br>North Wales Indoor Bowls Centre | Prestatyn |
| 04.12.14 | Ymweliad gan Gyngor 2 Ysgol Gynradd<br>Visit from 2 Primary School Councils | Rhuthun<br>Ruthin |
| 04.12.14 | Parti Nadolig Plant a Phobl Ifanc<br>Gwesty'r Traethau<br>Children and Young Peoples' Christmas Party, The Beaches Hotel | Prestatyn |
| 05.12.14 | Digwyddiad Dathlu Menter Darllen<br>Reading Mentor Initiative Celebration Event | Rhuthun<br>Ruthin |
| 07.12.14 | Pops Nadolig, Eglwys St. Thomas '<br>Christmas Pops, St. Thomas' Church | Y Rhyl/Rhyl |
| 08.12.14 | Ymweliad â Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog<br>Visit to Ysgol Caer Drewyn and Ysgol Carrog | Corwen |
| 09.12.14 | Gwasanaeth Carolau Dathlu'r Nadolig, Eglwys St. Thomas '<br>Christmas Celebration Carol Service, St. Thomas' Church | Y Rhyl/ Rhyl |
| 10.12.14 | Cyflwyno Tystysgrif Mentor Darllen, Ysgol Esgob Morgan<br>Presentation of Reading Mentor Certificate Ysgol Esgob Morgan | Llanelwy<br>St. Asaph |
| 12.12.14 | Pantomeim – Snow White & the Seven Dwarves Pafiliwn YRhyl<br>Snow White & the Seven Dwarves Pantomime, Rhyl Pavilion | Y Rhyl/ Rhyl |

| | | |
|---|---|---|
| 14.12.14 | Penblwydd 100 oed Mrs Olive Andrews, Dolwen<br>100th Birthday of Mrs Olive Andrews, Dolwen | Dinbych<br>Denbigh |
| 14.12.14 | Gŵyl o 9 Wers a Charolau ar gyfer y Nadolig, Eglwys St. Thomas '<br>Festival of 9 Lessons and Carols for Christmas, St. Thomas' Church | Y Rhyl/ Rhyl |
| 15.12.14 | Ymweliad â Swyddfa Ddosbarthu y Post Brenhinol<br>Visit to Royal Mail Delivery Office | Y Rhyl/Rhyl |
| 16.12.14 | Fforwm Nadolig Maethu Sir Ddinbych, Pafiliwn Y Rhyl<br>Denbighshire Fostering Christmas Forum, Rhyl Pavilion | Y Rhyl/Rhyl |
| 18.12.14 | Penblwydd Priodas Ddiemwnt Anne ac Iorwerth Hughes yn Stapletons<br>Diamond Wedding Anniversary of Anne and Iorwerth Hughes at Stapletons | Rhuddlan |
| 19.12.14 | Dadorchuddio Cofeb Bedd heb ei farcio, Mynwent Tref Y Rhyl<br>Rhyl Town Cemetery Unmarked Grave Memorial Unveiling | Y Rhyl/Rhyl |
| 05.01.15 | Ymweliad gan Carl Sargeant AC, i Garford Road a Gorllewin Y Rhyl<br>Visit by Carl Sargeant AM, to Garford Road and West Rhyl | Y Rhyl/Rhyl |
| 15.01.15 | Lansiad Sir Ddinbych o'r cynllun Pob Plentyn yn Aelod Llyfrgell , Llyfrgell Prestatyn<br>Denbighshire launch of the Every Child a Library Member scheme, Prestatyn Library | Prestatyn |
| 15.01.15 | Ymweliad gan Gyngor Ysgol Gynradd<br>Visit from Primary School Council | Rhuthun<br>Ruthin |
| 15.01.15 | Seremoni Dinasyddiaeth<br>Citizenship Ceremony | Rhuthun<br>Ruthin |
| 17.01.15 | Cynllun Cerdded Troedio Clwyd<br>Parc Gwledig Loggerheads<br>Troedio Clwyd Lets Walk Scheme, Loggerheads Country Park | Loggerheads |
| 19.01.15 | Angladd y Cynghorydd Margaret McCarroll<br>Funeral of Councillor Margaret McCarroll | Y Rhyl/Rhyl |

| | | |
|---|---|---|
| 23.01.15 | Croeso/Debyniad Pencampwriaeth Bowlio Canolfan Bowlio<br>Bowling Championship Welcome Reception, Bowls Centre | Prestatyn |
| 24-25.01.15 | Pencampwriaeth Bowlio Dan Do<br>Wales Indoor Bowls Championship | Prestatyn |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Llun, 17 Tachwedd, 2014 am 2.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Arwel Roberts, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker a/ac Julian Thompson-Hill

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd a Swyddog Monitro (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Swyddog Gwella Corfforaethol (NK), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Meirick Davies, Peter Arnold Evans, Carys Guy, Alice Jones, Margaret McCarroll, Merfyn Parry, Paul Penlington a/ac Gareth Sandilands.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Nodwyd y cysylltiadau hyn ag eitemau busnes i gael eu hystyried yn y cyfarfod.

Eitem rhif 4 ar y Rhaglen:- Uno Gwirfoddol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych. Datganwyd cysylltiadau personol gan yr holl Gynghorwyr yn bresennol. Y rheswm am y datganiadau oedd y goblygiadau priodol ar gyfer Cynghorwyr Sir pe bai eu swyddi yn cael eu hymestyn o ganlyniad i uno.

Datganodd y Cynghorwyr S.A. Davies, H. Hilditch-Roberts a D.I. Smith gysylltiad personol ychwanegol ag Eitem 4 ar y Rhaglen oherwydd bod eu partneriaid yn weithwyr yn y Cyngor.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 UNO GWIRFODDOL RHWNG CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY A CHYNGOR SIR DDINBYCH – DATGAN DIDDORDEB

Roedd copi o adroddiad gan y Prif Weithredwr (copi ynghlwm) wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod, a oedd yn darparu diweddariad ynglŷn â'r gwaith a wnaed ar gyfer yr opsiwn uno gwirfoddol ers cyfarfod y Cyngor ar 9 Medi 2014, ac a oedd yn argymell bod y Cyngor yn cytuno i gyflwyno'r Datganiad Diddordeb sydd ynghlwm, Atodiad 2, i Lywodraeth Cymru (LlC) erbyn diwedd Tachwedd 2014.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad, a rhoddodd grynodeb manwl o'r meysydd allweddol canlynol o'r cyflwyniad PowerPoint a ddosbarthwyd gyda'r adroddiad:-

- *Sefyllfa Cyngor Sir Ddinbych*
- *Cynnydd ers 9 Medi, 2014.*
- *Manylion yn ymwneud â'r Datganiad Diddordeb.*
- *Datganiad Diddordeb: Yr Achos dros Uno (1) a (2).*
- *Opsiynau ar gyfer cysoni'r Dreth Gyngor.*
- *Cyflogau a Graddio Staff.*
- *Manteision Uno Gwirfoddol.*
- *Risgiau a Chasgliadau.*
- *Map Ffordd i Uno Gwirfoddol a'r Camau Nesaf.*
- *Argymhellion.*

Roedd crynodeb o ddatblygiadau pwysig ers cyfarfod y Cyngor ym mis Medi wedi ei ddarparu ac roedd yn cynnwys:-

- Roedd Cyngor Conwy wedi pasio cynnig tebyg, gan gytuno i ymchwilio i'r opsiwn o uno yn wirfoddol gyda Sir Ddinbych, ar 18 Medi 2014.

- Roedd LlC wedi cyhoeddi ei 'Brosbectws' ar gyfer uno gwirfoddol: "Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru Gyflwyno Cynigion ar gyfer Uno Gwirfoddol"

- Cytunodd Sir Ddinbych a Chonwy i gomisiynu CIPFA i gynnal ymarfer arbedion a chostau, Atodiad 1, ac i fynd ymlaen i ddrafftio Datganiad Diddordeb ar y cyd ar gyfer Aelodau'r ddau gyngor i'w ystyried yn eu cyfarfodydd cyngor ar 17 Tachwedd.

- Roedd Arweinyddion Grŵp yn Sir Ddinbych a grŵp trawsbleidiol yng Nghonwy wedi eu sefydlu i oruchwylio datblygiadau'r uno.

- Bu trafodaethau gyda swyddogion LlC a chyfarfod lefel uchel gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar 12 Tachwedd 2014.

Darparodd y Prif Weithredwr grynodeb o'r adroddiad gan CIPFA, Atodiad 1, ar Oblygiadau Strategol Uno Cynnar Gwirfoddol rhwng Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych. Roedd yr adroddiad yn cynghori ar y materion canlynol:-

- Costau tebygol uno gwirfoddol;
- Unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â bod yn fabwysiadwr neu arloeswr cynnar;
- Manteision ariannol parhaus tebygol a ddaw drwy uno;
- Manteision ac anfanteision uno gwirfoddol cynnar.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr fod y Datganiad Diddordeb yn nodi'r Achos dros uno gwirfoddol, ond nid hwn oedd yr Achos Busnes ar gyfer uno. Ymatebodd i bryderon a fynegwyd gan rai Aelodau a chynghorodd i beidio ag ymrwymo i uno gwirfoddol hyd nes y bydd Achos Busnes llawn wedi ei ddatblygu a'i ystyried yn ofalus, ac yn dilyn hynny gallai Datganiad o Fwriad gael ei gyflwyno. Amlygodd y Prif Weithredwr y pedwar rheswm pwysig dros gyflwyno Datganiad Diddordeb a mynd ymlaen i ddatblygu Achos Busnes llawn. Roedd y rhain yn cynnwys:-

(i) Tebygrwydd rhwng ardaloedd yr Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Lleol (Datganiad Diddordeb yn manylu yn Atodiad 2).
(ii) Yr ymarfer costau ac arbedion gan CIPFA (manylion yn Atodiad 1).
(iii) Annog cymorth cynnar gan LlC.
(iv) Manteision Uno Gwirfoddol dros Uno Gorfodol.

Ar 18 Medi cyhoeddodd LlC ei "Brosbectws" ar gyfer uno gwirfoddol: "Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol". Roedd y ddogfen braidd yn amwys am y cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer uno gwirfoddol. Fodd bynnag, nododd yn galonogol:-

"Rydym yn bwriadu sicrhau bod adnoddau ar gael, a'r rheini'n adnoddau penodol sydd ar wahân i'r Grant Cynnal Refeniw, i roi cymorth i uno'n wirfoddol." T3.

Yn llai calonogol roedd yn nodi " O ystyried y pwysau ariannol difrifol yr ydym yn eu hwynebu, mae'n afrealistig disgwyl i Lywodraeth Cymru roi chwistrelliadau mawr o arian i gynorthwyo proses o uno." T5.

Ers cyhoeddi roedd trafodaethau wedi digwydd gydag uwch swyddogion LlC am y cynigion, ac roedd cydnabyddiaeth LlC o'r materion cost a galluoedd sy'n gysylltiedig â'r uno wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Eglurodd y Cynghorydd H. H. Evans, ar 12 Tachwedd fod Arweinyddion a Phrif Weithredwyr Sir Ddinbych a Chonwy wedi cyfarfod gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd y cyfarfod wedi bod yn rhagweithiol gyda chydnabyddiaeth y byddai costau, ac roedd ymrwymiad ar lafar y gallai cefnogaeth sylweddol fod ar gael. Teimlai fod y cyflwyniad gan y Prif Weithredwr wedi darparu eglurder ynghylch y broses uno arfaethedig.

Os oedd uno Awdurdodau Lleol yn anorfod, yna byddai gwirfoddoli i uno'n gynt yn hytrach nag aros i gael eu huno yn nes ymlaen yn fanteisiol am nifer o resymau:-

- Cefnogaeth ychwanegol gan LlC: 'Prosbectws +'
- Cyfnod byrrach o falltod cynllunio ac ansicrwydd
- Rhyddhau arbedion effeithlonrwydd yn gynharach ac integreiddio prosesau cynllunio

- Mae’n gosod tôn a diwylliant cadarnhaol ar gyfer y cyngor newydd
- Un set yn llai o etholiadau
- Synnwyr clir o gyfeiriad i staff.

Roedd crynodeb o'r risgiau wedi ei gynnwys yn yr adroddiad, ynghyd â manylion pethau a fyddai’n selio’r fargen o bosibl a oedd yn cynnwys: -

- Ariannu costau’r uno
- 
- Cytundeb ar wneud penderfyniadau gan ‘Awdurdod Cysgodol’
- Cysoni Treth y Cyngor

Roedd y risgiau eraill yn cynnwys: -

- Effaith ar berfformiad a safonau
- Trefniadau pensiwn
- Ewyllys gwleidyddol i yrru'r arbedion
- Potensial ar gyfer anghytundeb difrifol rhwng partïon allweddol
- Cefnogaeth genedlaethol ansicr ar ôl Mai 2016
- Cysoni gwahanol lefelau gwasanaeth
- Llawer nad ydym wedi’i nodi eto.

Eglurwyd gan y Prif Weithredwr bod achos cryf dros gyflwyno'r Datganiad Diddordeb ac, os caiff ei dderbyn gan LlC, i ddechrau gweithio ar Achos Busnes llawn. Fodd bynnag, roedd yna nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â symud ymlaen â'r broses uno wirfoddol, y mwyaf arwyddocaol yw’r pethau a fyddai’n selio’r fargen o bosibl yn adran 6 o'r adroddiad hwn. Cadarnhaodd y byddai angen datrys y rhain yn ystod y broses Achos Busnes llawn.

Ymatebodd y Prif Weithredwr i bryderon a fynegwyd gan yr Aelodau a chadarnhaodd na fyddai cyflwyno Datganiad Diddordeb yn ymrwymo'r Cyngor i symud ymlaen i uno ac nid oedd unrhyw oblygiadau cost. Byddai bwrw ymlaen y tu hwnt i'r pwynt hwnnw yn gam mawr, ac mae Atodiad 1 yn amlygu'r costau a manteision ariannol. Ar y cam hwn, byddai angen bod yn ofalus wrth ystyried yr holl ffigurau o ystyried yr amserlenni sydd ar gael i'w cynhyrchu. Byddai’n briodol ceisio cymeradwyaeth y Cyngor llawn gan y byddai goblygiadau'r cynigion yn effeithio ar bob Aelod Etholedig ac ar ddyfodol y Cyngor. Sicrhaodd y Prif Weithredwr yr Aelodau na fyddai'n gallu argymell bod y broses uno yn mynd rhagddi oni bai bod yr Achos Busnes llawn, y gellid ei hasesu a'i hadolygu ar bob cam, yn gadarn ac o sylfaen gadarn.

Tynnwyd sylw at yr angen i ystyried y goblygiadau i aelodau o staff, gyda'r awgrym y gallai morâl isel o bosibl arwain at safon wael o berfformiad. Cytunodd y Prif Weithredwr â'r farn y byddai'n bwysig rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf lawn i’r staff a'r Undebau priodol, a chyfeiriodd yn y cyflwyniad at ddarparu ymdeimlad clir o gyfeiriad ar gyfer staff.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan Aelodau:-

- Eglurwyd y byddai materion yn ymwneud â chytundebau Cynllun Ariannu Preifat Awdurdodau perthnasol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn, contractau ac achosion cyfreithiol yn cael eu harchwilio yn fanwl mewn modd systematig.

- Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd Achos Busnes cadarn a hyfyw os yw'r broses uno i symud ymlaen. Cyfeiriwyd at y pedwar peth a allai selio’r fargen a amlinellir yn y cyflwyniad a chadarnhawyd oni bai bod manylion clir mewn perthynas â darpariaeth ariannu na fyddai'n gallu argymell neu gefnogi uno.

- Nid oedd LlC wedi rhoi manylion am y cymorth ariannol sydd ar gael, ond roedd wedi rhoi sicrwydd bod staff ac adnoddau ariannol wedi eu nodi i gynorthwyo â'r broses uno. Byddai'r goblygiadau cost yn rhai untro tra byddai arbedion yn barhaus.

- Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn ag unrhyw newid yn y dyfodol o gyfarwyddyd gan y Llywodraeth mewn perthynas ag Ad-drefnu Llywodraeth Leol, cyfeiriwyd at bwysigrwydd edrych ar yr amgylchedd presennol a'r opsiynau eraill sydd ar gael yn ystod yr hinsawdd ariannol yn y presennol a'r dyfodol. Teimlai'r Prif Weithredwr y byddai Awdurdod mwy o faint mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'r hinsawdd ariannol a'i oblygiadau tymor hir.

- Darparwyd amlinelliad o'r terfynau amser, ynghyd â manylion am sefydlu'r fframwaith cyfreithiol priodol.

- Mewn ymateb i gyfeiriad at ansicrwydd gwleidyddol yn y dyfodol o ran Ad-drefnu Llywodraeth Leol, eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd yn ymwybodol fod unrhyw blaid wleidyddol wedi mynegi gwrthwynebiad, a phe bai Sir Ddinbych a Chonwy yn symud ymlaen ar y cam hwn, yna byddai'r fframwaith deddfwriaethol yn cael ei sefydlu i fynd rhagddo yn y dyfodol.

- Cymeradwyodd y Prif Weithredwr y farn a fynegwyd ynghylch yr angen i gyfleu’r manteision i breswylwyr yn yr Achos Busnes llawn, a chytunodd i fynd i'r afael â'r mater hwn.

- Mynegwyd pryderon bod rhai o'r ardaloedd a chymunedau gwledig yn Sir Ddinbych wedi eu dieithrio yn y gorffennol o dan Awdurdodau blaenorol mwy o faint, ac y gallai'r parau arfaethedig gael eu newid. Eglurodd y Prif Weithredwr na allai'r ffiniau presennol gael eu rhannu ac ni ellid llunio parau a fyddai’n arwain at Awdurdodau ynysig sengl, felly yn ddaearyddol paru Sir Ddinbych a Chonwy fyddai'r unig ddewis ymarferol realistig a byddai hyn yn dylanwadu ac yn siapio tynged Awdurdodau eraill.

- Byddai materion megis enw a lleoliad pencadlys yr Awdurdod newydd yn faterion i'w trafod gan yr Awdurdod newydd.

Yn dilyn trafodaeth bellach ac o'i roi i bleidlais, cytunwyd â’r argymhelliad yn yr adroddiad:-

30 pleidlais o blaid, 5 yn erbyn a 0 yn ymatal.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Cyngor yn: -*

*(a) cytuno i gyflwyno'r Datganiad Diddordeb sydd ynghlwm (Atodiad 2 yn yr adroddiad) i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Tachwedd 2014, ac*
*(b) yn amodol ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Datganiad Diddordeb, a ddisgwylir erbyn 5 Ionawr, 2015, cychwyn y broses o baratoi'r Achos Busnes llawn ar gyfer uno, i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mehefin / Gorffennaf 2015.*

***Daeth y cyfarfod i ben am 16.15 p.m.***

# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, James Davies, Meirick Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Addysg (KE), Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Hamdden (JG), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd ac Adnoddau Dynol (GW), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Swyddog Gwella Corfforaethol (IM)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Joan Butterfield, Ann Davies, Richard Davies a Margaret McCarroll.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Colin Hughes gysylltiad sy'n rhagfarnu, gan fod ei bartner yn gweithio gyda'r Tîm Hawliau Lles, yn eitem 6 - Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd ar ran y Grŵp Llafur.

Roedd y Cynghorwyr Stuart Davies, Meirick Lloyd-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Paul Penlington, Arwel Roberts, David Simmons a Cefyn Williams i gyd yn datgan cysylltiad personol yn eitem 7 - Cyllideb 2015/16 a 2016/17 (partneriaid/perthnasau yn gweithio i'r Awdurdod).

Roedd y Cynghorwyr Raymond Bartley, Colin Hughes, Huw Jones, Martyn Holland, Gwyneth Kensler, Jason McLellan, Julian Thompson-Hill a Huw Williams yn datgan cysylltiad personol yn eitem 9 - Adolygu Lleoedd Pleidleisio (cysylltiadau gyda Chanolfannau Cymunedol).

Datganodd y Cynghorydd Cheryl Williams gysylltiad personol yn eitem 13 - Cytundeb Gwirfoddol i Adael y System Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (Tenant Cyngor).

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Hydref 2014 a 28 Tachwedd 2014 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau ei fod wedi bod yn fis prysur a chyfeiriodd hwy at ei flog ar-lein am fwy o wybodaeth a lluniau o'r digwyddiadau a fynychwyd y mis diwethaf.

**5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2014. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2014 fel cofnod cywir.*

**6 RHYBUDD O GYNNIG**

Cymerodd yr Is-gadeirydd y Cynghorydd Gwyneth Kensler y Gadair ar gyfer yr eitem hon gan fod y Cynghorydd Blakely wedi bod yn llofnodwr ar y Rhybudd o Gynnig.

Roedd y Cynghorydd Colin Hughes wedi datgan cysylltiad sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn y cyswllt hwn.

Gwnaeth y Cynghorydd Jason McLellan y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Grŵp Llafur: -

"Bod y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor llawn ar 9 Medi 2014 dan eitem 12 ar y rhaglen - Cyllideb 2015/16 2016/17 - yn arbennig y cynigion arbedion sy'n ymwneud â Hawliau Lles yn Atodiad 1 i gael ei roi o'r neilltu."

Cadarnhaodd y Cynghorydd McLellan bod y cynnig yn ymwneud â gosod cynigion o'r neilltu i'r graddau y maent yn gymwys i'r Tîm Hawliau Lles (THLl) yn unig.

Hysbysodd y Cynghorydd McLellan y Cyngor:

- Roedd y THLl yn darparu gwasanaeth hanfodol i drigolion Sir Ddinbych a oedd am wahanol resymau wedi dioddef amser o galedi. Mae'r THLl wedi

cynhyrchu dros £5 miliwn o incwm ychwanegol i'w gleientiaid ac wedyn i'r economi leol yn y flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, mae cannoedd o deuluoedd wedi dod allan o dlodi - yn enwedig tlodi tanwydd (a ddiffinnir fel mwy na 10% o incwm y cartref yn cael ei wario ar gostau ynni) - o ganlyniad i gyngor a gafwyd gan y THLl.

- Roedd adroddiad diweddar a gynhyrchwyd gan y Cyngor ar Bopeth (CAB), sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r THLl, yn nodi Sir Ddinbych fel y lle gyda phroblemau dyledion mwyaf yn y DU. Mae'r CAB yn ymgymryd â'r holl gyngor ar ddyledion ar hyn o bryd. Y disgwyl yw y bydd y CAB yn gyfrifol am yr holl gyngor lles os bydd Sir Ddinbych yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth gan y THLl, gan arwain at fwy o risg o bwysau ar y CAB.
- Gan gyfeirio at y wybodaeth a ddarparwyd i Aelodau mewn cyfarfodydd gweithdy cyllideb dros yr haf ynghylch yr arbedion posibl o £200 mil mewn Hawliau Lles. Y dewis a drafodwyd yn y cyfarfod oedd y posibilrwydd o allanoli'r gwasanaeth. Daeth yn amlwg yn ddiweddarach bod opsiynau eraill a allai ddarparu arbedion nad oeddent wedi eu cyflwyno yn y cyfarfod.
- Dylid ystyried y risgiau y gallai rhoi'r gorau i'r gwasanaeth THLl ei achosi, gan gynnwys y gostyngiad posibl mewn cyllid o Gytundeb Canlyniadau Llywodraeth Cymru - sy'n cael ei gyfrifo yn rhannol ar symud pobl allan o dlodi. Cynigiwyd bod y Cyngor yn ailystyried arbedion effeithlonrwydd posibl y Tîm Hawliau Lles gan ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael gyda golwg ar gytuno ar fodel darparu â llai o risg.

Gofynnodd Arweinydd y Cyngor, Hugh Evans sut y gallai'r cynnig gael ei ystyried gan y Cyngor o gofio nad oedd yn ymddangos yn dilyn y protocol a dderbynnir, lle y dylai dulliau ariannu amgen gael eu cynnig lle na ellid cytuno ar benderfyniadau.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod Cyfansoddiad y Cyngor yn darparu, o dan adran 13.1 o'r Rheolau Sefydlog, y gall cynnig gael ei wneud i ddiwygio neu ddiddymu penderfyniad blaenorol os yw'n cael ei lofnodi gan o leiaf 10 aelod. Ar ben hynny eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y dylai'r protocol dros gynnig newidiadau i argymhellion y gyllideb gynnwys opsiynau ariannu amgen (i gynyddu ei siawns o ystyriaeth ffafriol gan y Cyngor), ond ni fyddai cael dewisiadau eraill yn atal Aelodau rhag cynnig newidiadau.

Cyfaddefodd y Cynghorydd McLellan, er bod y protocol wedi cael ei gytuno gan y Cyngor nad oedd wedi pleidleisio ar ei gyfer ac roedd wedi codi pryderon am y broses yn y cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol.

Yna cafwyd trafodaeth ynghylch tarddiad yr anawsterau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol, toriadau i'r cyllid a ddyrannwyd iddynt a'r gofynion i fod yn fwy effeithlon wrth wario a darparu gwasanaeth.

Cafodd y protocol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gynnig cyllideb ei drafod yn faith. Teimlai sawl aelod bod digon o gyfle wedi'i roi i drafod y cynigion, gofyn am fwy o wybodaeth neu herio penderfyniadau os nad ydynt yn fodlon ar y cynigion a gyflwynwyd iddynt. Cytunodd yr Aelodau hynny er mor anodd yw'r penderfyniadau hyn roedd yn rhaid iddynt gael eu gwneud. Teimlwyd yn arbennig lle'r oedd darparwr arall ar gael y gallai risg sy'n rhan o'r toriad arfaethedig gael ei leihau.

Gan ddychwelyd at y Cynnig roedd y Cynghorydd McLellan - ar ôl gofyn am gyngor gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd - yn cynnig gwelliant:

“Bod y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor llawn ar 9 Medi, 2014 dan eitem 12 ar y rhaglen - Cyllideb - i'r graddau y mae'n ymwneud â chynigion arbedion i Hawliau Lles yn atodiad 1 i gael ei roi o'r neilltu. O ran yr holl gynigion arbedion eraill a nodwyd yn yr atodiad bod y penderfyniad a wnaed ar 9 Medi 2014 yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor."

Gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi a'i chefnogi gan yr 1/6 gofynnol o aelodau oedd yn bresennol.

O blaid y cynnig oedd y Cynghorwyr:

Armstrong, I.W.; Blakely, B.; Chamberlain-Jones, J; Guy, C.L.; Jones, P.M.; Lloyd-Williams, G.; McLellan, J.M.; Mellor, B.; Mullen-James, W.M.; Murray, R.M.; Penlington, P.; Sandilands, G; Simmons, D; Tasker, W.N. and Williams, C.H.

Yn erbyn y cynnig oedd y Cynghorwyr:

Bartley, J.R.; Cowie, W.L.; Davies, J.M.; Davies, M.Ll; Davies, S.A.; Duffy, P.C.; Evans, H.H.; Evans, P.A.; Feeley, R.L.; Holland, M.L.; Hilditch-Roberts, H.; Hughes, T.R.; Irving, H.C.; Jones, E.A.; Jones, H.L; .Kensler, G.M; Owen, P.W.; Owens, D.; Parry, T.M.; Roberts, A.; Smith, B.A.; Smith, D.I.; Thompson-Hill, J.; Welch, J.S.; Williams, C.L.; Williams, E.W. a Williams, H.O.

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd y cynnig fel y’i diwygiwyd yn cael ei gefnogi.*

## 7 CYLLIDEB 2015/16 - 2016/17

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn argymell arbedion cyllidebol Cam 2 i'w cymeradwyo. Roedd yr adroddiad yn amlinellu sefyllfa gyfredol y gyllideb ac yn manylu ar y cynigion diweddaraf i ganfod arbedion sy’n dod i gyfanswm o £3.6 miliwn yn 2015/16 ac £1.8 miliwn yn 2016/17. Atgoffwyd y Cyngor bod yna ddyletswydd gyfreithiol i osod a chyflwyno’r gyllideb.

Roedd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau yn croniclo cynnydd yr arbedion arfaethedig a restrwyd yn atodiad 1. Dechreuodd y broses yn Ebrill 2014 gyda chyfres o 17 o gyfarfodydd cyllideb Gwasanaeth yn edrych ar ganfod arbedion posibl. Cafodd meysydd a nodwyd yn y cyfarfodydd hynny eu cyflwyno i weithdai cyllideb - 9 i gyd hyd yn hyn – i Aelodau ystyried y cynigion a gyflwynwyd. Yn y gweithdai hynny cyflwynwyd 3 dewis i’r Aelodau:

1. mabwysiadu - cynnig i ddod i'r Cyngor llawn nesaf i'w gymeradwyo;

2. datblygu – gofynnwyd am ragor o wybodaeth a dod yn ôl i weithdy cyllideb arall ym mis Hydref, ac os derbynnir, y Cyngor llawn yn nes ymlaen;
3. gohirio - i beidio â bwrw ymlaen ar y pryd.

Roedd 3 phwynt penderfyniad allweddol; Cyngor llawn ym mis Medi, cyfarfod heddiw a gosod y gyllideb yn ffurfiol ym mis Chwefror 2015. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer y cyfnod pontio sydd ei angen i sicrhau y gall yr arbedion gael eu gweithredu o 1 Ebrill 2015.

Asesiadau Effaith wedi cael eu llunio o ymgynghoriadau, gan gynnwys:

- Cyfarfodydd pwyllgorau archwilio yn gwerthuso cynigion yn atodiad 1 (teledu cylch cyfyng a Darparwyr Gwasanaethau).
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu'r broses cynllunio ariannol ac wedi ei gymeradwyo.
- Cafodd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd o'r enw "Torri'r Gôt yn ôl y Brethyn" ei lansio ym mis Hydref er mwyn asesu effaith y toriadau ar y gymuned.
- Cysylltwyd â Chynghorau Tref a Chymuned i drafod y posibilrwydd ohonynt yn cyllido rhai gwasanaethau.
- Bwrdd Gwasanaethau Lleol, CGGSDd a phartneriaid eraill wedi bod yn rhan o drafodaethau lle gall newidiadau effeithio arnynt.
- Undebau Llafur a gweithwyr.
- Cafodd manylion effaith gronnus yr holl arbedion arfaethedig eu dangos yn atodiad 6. Pe cytunwyd ar yr holl gynigion yna gellir parhau i amddiffyn ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a meysydd blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol.

Disgrifiodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch yr arbedion arfaethedig. Roeddent yn cynnwys postio ar wefan Sir Ddinbych a chyfryngau cymdeithasol; sesiynau briffio'r wasg leol; lleoliad paneli arddangos a chopïau papur o'r cynigion ym mhob derbynfa, mannau dinesig a rheng flaen a chyhoeddi sesiynau briffio staff rheng flaen yn rheolaidd i ymgysylltu â'r trigolion.

O'r adborth a dderbyniwyd y 5 pryder mwyaf oedd:
1. Tipio anghyfreithlon
2. Lleihau arian ar gyfer plant ag anableddau
3. Cynnal a chadw priffyrdd / dirywiad yng nghyflwr y ffyrdd
4. Newidiadau i ddarpariaeth seicoleg addysg / cwnsela
5. Rhoi'r gorau i ddarparu cyllid ar gyfer Gwasanaeth Cerddoriaeth William Mathias

Awgrymiadau a dderbyniwyd yn cynnwys:
1. Rhoi'r gorau i ariannu sefydliadau allanol
2. Cysylltu â busnes preifat ar gyfer defnyddio cyfleusterau cyhoeddus
3. Cynghorau Tref a Chymuned i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am ardaloedd chwarae
4. Lleihau gwasanaeth goleuadau stryd
5. Croesfannau pelican neu wirfoddolwyr yn lle talu hebryngwr croesfan ysgol.

Roedd y tîm Cyfathrebu yn rhaglennu amrywiaeth o weithgareddau cyfathrebu i gefnogi rhoi'r cynigion ar waith - gan gynnwys ymgynghoriadau ffurfiol ar gyfer rhai sydd eu hangen e.e. cludiant i deithwyr a darpariaeth gwasanaeth gofal dydd ayyb.

Eglurodd y Swyddog Gwella Corfforaethol effaith gyffredinol y cynigion a nodir yn fanwl yn atodiad 6. Mae'r papur yn canolbwyntio ar y sefyllfaoedd gwaethaf a mwyaf tebygol o roi'r rhaglen arbedion ar waith. Nodwyd bod cryn ymdrech wedi cael ei roi i mewn gan y Gwasanaethau i leihau/liniaru faint o brosiectau sy'n cael effaith negyddol ar yr ardaloedd a aseswyd.

Roedd y Cyngor yn meddwl am y toriadau llymder a osodir gan lywodraeth ganolog a dyfelir y byddent yn parhau waeth beth yw canlyniad yr etholiad cyffredinol. Awgrymwyd bod yr Aelodau'n cysylltu â'u ACau ac ASau i ofyn am gyllid tecach yng Nghymru.

Cafwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a godwyd gan y Cyngor:

- Roedd cyllideb Cynlluniau Tref ac Ardal wedi caffael tanwariant sylweddol. Felly, cytunwyd i roi'r gorau i ychwanegu at y cronfeydd hynny. Byddai arian yn parhau i gael ei ddyrannu i Gynlluniau T & C hyd nes iddynt gael eu disbyddu.
- Roedd defnydd yr Awdurdod o ymgynghorwyr yn destun archwilio'n rheolaidd a dylai gwybodaeth fod ar gael yn rhwydd.
- Ffioedd proffesiynol/hyfforddiant yn cael ei ddyrannu ar lefel gwasanaeth, a byddant wedi cael eu hystyried o dan eu hymarferion rhyddid a hyblygrwydd.
- Roedd arbedion yn y Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn deillio o ymddeoliad y Prif Seicolegydd Addysg. Nid oedd hyn wedi effeithio ar y gwasanaeth a oedd yn parhau i gael ei ddarparu.
- Gwasanaeth gwaith cymdeithasol addysg yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y ffocws ar y swyddogaeth graidd statudol - presenoldeb - a bod diogelu ac amddiffyn yn gyfrifoldeb y bartneriaeth iawn gydag ysgolion.
- Byddai'r gwasanaeth cwnsela addysg yn cadw'r gofyniad statudol o fonitro. O gofio bod cyllidebau ysgolion wedi eu diogelu i raddau helaeth rhag toriadau, bydd angen iddynt gyflogi cwnselwyr yn uniongyrchol ar gyfer unrhyw wasanaeth ychwanegol.
- Ni fyddai'r cynnig cyllid cerddoriaeth William Mathias yn effeithio ar wersi cerddoriaeth craidd a fyddai'n parhau ym mhob ysgol. Fodd bynnag, byddai angen i sesiynau peripatetig ac ensemble gael eu hariannu'n uniongyrchol gan ysgolion neu ddarpariaeth arall.
- Ni fyddai unrhyw effaith anghyfartal ar yr iaith Gymraeg.
- Nid yw'r uno posibl gyda Chonwy yn cael ei ystyried fel rhan o broses pennu'r gyllideb eleni.

Pryderon a chwestiynau a godwyd gan Aelodau:

- Nid oedd atodiad 6 yn mynd i'r afael ag effaith y toriadau hyn ar drigolion ar incwm is, colli grant gwisg ysgol, tripiau ysgolion a gwasanaethau bws lleol ar gyfer yr henoed.

- Beth fyddai'n digwydd pe na allai Cynghorau Tref/Cymuned neu ysgolion ariannu'r gwasanaethau y mae'r Sir yn eu tynnu'n ôl?
- Ymatebodd llai nag 1% o drigolion Sir Ddinbych i'r ymarfer Torri'r Gôt yn ôl y Brethyn.
- Diffyg eglurder ynglŷn â lle byddai'r toriadau yn y Gwasanaethau Cefn Gwlad.
- Nid oedd gan Gynghorau Tref a Chymuned y wybodaeth sydd ei hangen i osod y praeseptau'r mis nesaf os oedd disgwyl iddynt ariannu gwasanaethau.

Ailadroddodd y Prif Weithredwr bod angen gwneud y penderfyniadau anodd hyn heb unrhyw fai ar y Cyngor ond mewn ymateb i'r toriadau ariannol i'r Cyngor. Roedd yn canmol Swyddogion ac Aelodau am fod yn gallu amddiffyn ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a darpariaeth ieuenctid ac yn cadarnhau y byddent yn ymdrechu i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Gofynnodd y Cynghorydd David Smith am bleidlais a gofnodwyd ac fe gytunodd y nifer angenrheidiol o'r Aelodau.

O blaid cymeradwyo'r cynigion arbedion cam 2 oedd y Cynghorwyr:

Bartley, J.R.; Cowie, W.L.; Davies, J.M.; Davies, M.Ll.; Davies, S.A.; Duffy, P.C.; Evans, H.H.; Evans, P.A.; Feeley, R.L.; Holland, M.L.; Hilditch-Roberts, H.; Hughes, T.R.; Irving, H.C.; Jones, E.A.; Jones, H.L.; Owen, P.W.; Owens, D.; Parry, T.M.; Roberts, A.; Smith, B.A.; Smith, D.I.; Thompson-Hill, J.; Welch, J.S.; Williams, C.L.; Williams, E.W. a Williams, H.O.

Yn erbyn cymeradwyo'r arbedion cam 2 oedd y Cynghorwyr:

Armstrong, I.W.; Chamberlain-Jones, J; Jones, P.M.; Lloyd-Williams, G; McLellan, J.M.; Mellor, B; Mullen-James, W.M.; Murray, R.M.; Penlington, P.; Sandilands, G; Simmons, D a Tasker, W.N.

Roedd y Cynghorwyr Blakely a Kensler yn ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD** *bod cynigion arbedion cam 2 yn cael eu cymeradwyo.*

**8 RHEOLAU'R GWEITHDREFNAU GONTRACTAU**

Ymddiheurodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau am beidio â dod â'r ddogfen Rheolau Gweithdrefn Contractau (CPR) a adolygwyd i'r Cyngor yn gynt ond roedd yn ddogfen dechnegol gymhleth a oedd i fod yn addas at y diben. Roedd crynodeb o'r newidiadau i'r polisi yn atodiad 2. Pwrpas y CPR yw diogelu lles Sir Ddinbych a gwneud trafodion mor hawdd â phosibl ar gyfer darparwyr.

Roedd newidiadau sylweddol i'r polisi presennol yn cynnwys:

- Adran 10.3 Eithriadau Tendr, lefelau newydd yn y broses gymeradwyo lle gallai'r Aelod Arweiniol gymeradwyo gwerthoedd rhwng £1 miliwn a £2 filiwn. Gwerthoedd mwy na £2 filiwn angen cymeradwyaeth gan y Cabinet.
- Adran 11 Rhestrau Cymeradwy, Dim ond contractau hyd at £25 mil am nwyddau a gwasanaethau neu £245 mil ar gyfer gwaith a fyddai'n cael eu cynnwys. Byddai rhestrau cymeradwy yn cael eu diddymu'n raddol erbyn Ebrill 2016
- Adran 15 Caffael Cynaliadwy, byddai'n rhaid i bob contract dros £2 filiwn ystyried cymalau budd cymunedol.
- Adran 16 - 20 Lefelau Contract a gyhoeddwyd; gwerthoedd hyd at £10 mil fel un dyfynbris, byddai £10mil i £25 mil angen 3 dyfynbris a dros £25 mil angen hysbyseb cyhoeddus.
- Byddai Tendrau Adran 27 dros £100 mil yn cael eu seilio ar bris ac ansawdd.
- Dyfarniadau Tendr Adran 29 yn debyg i ofyniad cymeradwyo eithriadau tendro lle gallai'r Aelod Arweiniol gymeradwyo gwerthoedd rhwng £1 miliwn a £2 filiwn. Gwerthoedd mwy na £2 filiwn angen cymeradwyaeth gan y Cabinet.

Yn y drafodaeth a ddilynodd roedd rhai aelodau yn mynegi rhwystredigaeth a fynegwyd gan rai perchnogion busnesau bach yn eu wardiau a oedd yn cael anhawster mynd ar y rhestr contractwyr cymeradwy a'r fiwrocratiaeth / gwaith papur sy'n ymwneud â chystadlu am fusnes. Awgrymwyd lle gallai busnesau lleol ddarparu nwyddau a/neu wasanaethau am y pris cywir y dylid eu dyfarnu yn y Sir lle bynnag y bo modd.

Hysbyswyd y Cyngor bod y ffordd y mae'r rhestr gymeradwy yn gweithio ar hyn o bryd yn golygu bod yna nifer o gwmnïau ar y rhestr a oedd yn golygu nad oedd cwmnïau unigol yn cael llawer o waith. Bwriad y fframwaith newydd oedd cynnal cronfa lai o fusnesau a all yna gynllunio yn unol â hynny.

Ni allai'r Awdurdod wahaniaethu yn erbyn busnesau y tu allan i'r Sir, ond gallai nodi mewn cytundebau lefel gwasanaeth bod angen amser ymateb o 1 awr.

Disgrifiodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau'r newid i gytundebau fframwaith lle byddai fframwaith yn cael ei hysbysebu am 3 blynedd e.e. ar gyfer mân waith. Gallai unrhyw un a oedd am fod ar y fframwaith hwnnw wneud cais ar yr adeg honno. Byddai busnesau lleol yn cael eu hannog i enwebu eu hunain. Yna, pan wahoddir tendrau, byddai'r busnesau ar y fframwaith yn cystadlu ymysg ei gilydd.

Byddai'r fframweithiau hyn yn cael eu cynnal ar system TG a fyddai'n rhoi gwybod i'r busnesau yn awtomatig pan oedd yna gyfle i dendro. Mae'r fframwaith TG yn symleiddio'r broses ar gyfer cyflenwyr a negyddu’r gofyniad am waith papur gormodol. Gallai cyflenwyr hefyd ymgysylltu â’r Awdurdod yn electronig, cael gwybod lle mae eu taliadau ac ati. Gallai’r system hefyd gael ei ddefnyddio i reoli perfformiad cyflenwr.

***PENDERFYNWYD** bod Rheolau'r Weithdrefn Gontractau diwygiedig yn cael eu derbyn a'u defnyddio gan holl adrannau'r Cyngor.*

## 9 ADOLYGU DOSBARTHIADAU ETHOLIADOL A MANNAU PLEIDLEISIO

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynghylch y gofyniad statudol i adolygu mannau pleidleisio bob 4 blynedd.

Cafodd hysbysiad ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan Sir Ddinbych a'i ddosbarthu i bartïon â diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar strwythur yr ardaloedd pleidleisio presennol. Gydag un eithriad, roedd y sylwadau o blaid y trefniadau presennol ar gyfer y gorsafoedd pleidleisio eu hunain (yr holl sylwadau wedi eu cofnodi yn atodiad 2 i'r adroddiad). Roedd Swyddogion Canlyniadau 3 etholaeth seneddol Sir Ddinbych i gyd wedi cadarnhau eu bod yn fodlon ar y trefniadau presennol.

Roedd Cyngor Tref Dinbych wedi gofyn am orsaf bleidleisio agosach yn y Ward Ganolog i drigolion ar gyfer y rhai yn rhan isaf y rhanbarth yn ardal Townsend, Stryd y Dyffryn. Ystyriwyd y cynnig yn ofalus, ond daethpwyd i'r casgliad y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i rannu'r ardal ganolog yn 2 ardal bleidleisio. Ar ôl adolygu'r nifer a bleidleisiodd a'r pleidleisiau post ar gyfer etholiadau blaenorol (atodiad 3) daethpwyd i'r casgliad nad oedd lleoliad yr orsaf bleidleisio bresennol yn Eirianfa yn ffactor niweidiol ac na fyddai'r cynnig yn hyfyw o safbwynt ymarferoldeb neu gost. Fel arall roedd y sylwadau a dderbyniwyd o blaid cynnal y trefniadau presennol.

***PENDERFYNWYD** bod y trefniadau presennol ar gyfer ardaloedd pleidleisio a mannau pleidleisio yn cael ei gytuno.*

## 10 PENODI I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd adroddiad mewn perthynas â swyddi gwag ar y Pwyllgor Safonau. Roedd dwy swydd i'w llenwi - un i Bwyllgor Safonau'r Cyngor ac un i Panel Penodiadau Arbennig y Pwyllgor Safonau.

***PENDERFYNWYD** bod y Cynghorydd Barry Mellor yn cael ei benodi i Bwyllgor Safonau a Phanel Penodiadau Arbennig Pwyllgor Safonau'r Cyngor.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor i'w hystyried.

Nododd yr Aelodau -

- Byddai yna sesiwn briffio cynllunio cyn y Gweithdy Cyllideb ar 12 Rhagfyr.

- Byddai sesiwn Briffio’r Cyngor ar 19 Ionawr yn gyfarfod ffurfiol y Cyngor i ddechrau er mwyn cytuno ar y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2015/16.

***PENDERFYNWYD** nodi cynnwys Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor yn amodol ar yr uchod.*

**12 PARTNERIAETH FASNACHOL REFENIW A BUDD-DALIADAU**

***EITEM RHAN 2***

***PENDERFYNWYD**, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o’r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.*

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau'r adroddiad cyfrinachol (dosbarthwyd yn barod) ynglŷn â chynigion i ffurfio partneriaeth fasnachol gyda chwmni preifat i ddarparu Gwasanaeth Refeniw a Budd-Daliadau’r Cyngor.

Mewn trafodaeth fanwl, ystyriodd y Cabinet y dadansoddiad dewisiadau a ddarparwyd gogyfer â'r gwasanaeth a'r rhesymeg sydd wrth wraidd y cynigion i ymrwymo i bartneriaeth fasnachol gan gynnwys y manteision hynny dros y dewisiadau amgen, yn enwedig o ran arbedion a’r cyfle ar gyfer twf.

Rhoddodd cynrychiolwyr Civica gyflwyniad i’r Cyngor ac ymateb i gwestiynau'r aelodau ynglŷn â’r model arfaethedig a’r cynlluniau i'r dyfodol pe byddai’r bartneriaeth yn mynd rhagddi, gan ddarparu sicrwydd ynghylch eu hymrwymiad i Sir Ddinbych o ran staffio a lleoliad; eu darpariaeth Gymraeg a’u hymrwymiad i ddilyn polisïau a gweithdrefnau presennol.

***PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn cytuno ar y bartneriaeth arfaethedig a dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau i drafod telerau terfynol y contract.*

**13 CYTUNDEB GWIRFODDOL I ADAEL Y SYSTEM CYMHORTHDAL CYFRIF REFENIW TAI (HRAS)**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau'r adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo cytundeb gwirfoddol i adael y system cymhorthdal cyfrif refeniw tai (HRAS).

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cerrig milltir allweddol ar gyfer gadael system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai ac yn rhoi trosolwg o'r cytundeb gwirfoddol sydd i’w lofnodi rhwng yr un ar ddeg awdurdod sy’n meddu ar stoc dai a Llywodraeth Cymru er mwyn eu galluogi i adael y system.

Ymgyfarwyddodd yr Aelodau â'r cytundeb cydweithredol a chroesawu buddion y system arfaethedig newydd a'r manteision ariannol ar gyfer Sir Ddinbych. Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ynglŷn â goblygiadau ariannol gadael y system ynghyd â'r buddsoddiad posibl mewn stoc tai fforddiadwy i'r dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn*-

*(a)* *cymeradwyo'r cytundeb gwirfoddol i adael y system HRAS, a*

*(b)* *dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau i gwblhau manylion y cytundeb mewn trafodaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r deg awdurdod arall yng Nghymru sy'n meddu ar stoc.*

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Chwefror 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Cyllideb 2015/16 (Cynigion Terfynol - Cam 3)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gyllideb ac yn cyflwyno cam olaf rhaglen o arbedion ar y gyllideb a mesurau eraill er mwyn darparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16. Mae'r adroddiad yn cynnwys lefel arfaethedig o gynnydd i Dreth y Cyngor a defnyddio balansau cyffredinol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys y mae modd ei chyflawni a gosod y lefel ddilynol o Dreth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

Er mwyn ffurfioli cynnig a ddaeth i'r amlwg o weithdy'r gyllideb a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr bod y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cymryd blaenoriaeth mewn rowndiau gosod cyllideb yn y dyfodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig gyllideb ar gyfer 2015/16 fel y dangosir yn Atodiad 1.

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnydd dilynol yn Nhreth y Cyngor, ar gyfartaledd o 2.75% yn 2015/16;

Bod y Cyngor yn cymeradwyo defnyddio £500k o falansau cyffredinol i gefnogi'r gyllideb refeniw am y tair blynedd ariannol nesaf;

Cymeradwyo'r argymhelliad bod y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cymryd blaenoriaeth mewn rowndiau gosod cyllideb yn y dyfodol.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Dangosodd dadansoddiad cychwynnol o Setliad Drafft Llywodraeth Leol a chanlyniadau hynny i'r cyngor y gallai fod angen arbedion o £8.5m yn 2015/16. Roedd y targed arbedion yn cynnwys lleihad i'r Grant Cynnal Refeniw o £5.3m a phwysau costau na ellir eu hosgoi o tua £3m.

Mae dau gam cyntaf proses y gyllideb wedi nodi arbedion o £7.3m ar gyfer 2015/16 gan adael bwlch o £1m. Manylir ar hyn yn Atodiad 1. Cafwyd y Setliad Terfynol ar 10 Rhagfyr ac roedd yn eithaf tebyg i’r Drafft ond roedd hyn a nifer o newidiadau eraill yn effeithio ar y bwlch cyllido a’r rhain yw:

- Mae'r gostyngiad i'r Setliad Terfynol 0.016% yn is na'r Drafft, sy'n cyfateb i fantais o £23k.
- Mae gostyngiadau a ddisgwylir i grantiau penodol (Cynllun Ariannu Preifat a Grant Gweinyddu Treth y Cyngor) wedi eu cadarnhau yn y Setliad Terfynol a byddant yn cael eu pasbortio i gyfanswm o £63k.
- Mae'r Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer pob cyngor yn cael ei ailasesu gan ddefnyddio data mwy diweddar rhwng y Setliad Drafft a’r Setliad Terfynol. Effaith yr ailasesiad hwn yw bod y cynnydd yn y Sylfaen tua 0.65% yn uwch na'r rhagolwg, sy'n cyfateb i tua £282k.
- Mae'r cynnydd yn Ardoll y Gwasanaeth Tân £51k yn llai na'r rhagolwg a gyflwynwyd i'r Cyngor gan y Gwasanaeth Tân ym mis Medi. Mae'r Gwasanaeth Tân wedi gwneud arbedion a defnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfyngu'r cynnydd a drosglwyddir i gynghorau.

Mae’r pedair eitem uchod yn cyfrannu £419k i’r gofyniad arbed ar gyfer 2015/16.

Mae'r dyfarniad cyflog llywodraeth leol wedi ei gytuno yn ddiweddar fel bargen a ddaw i rym o fis Ionawr 2015 i fis Mawrth 2016. Mae'r prif gynnydd yn 2.2% dros y cyfnod ond bydd staff ar raddau is na Gradd 11 yn derbyn cynnydd uwch. Mae'r gost o weithredu'r dyfarniad cyflog yn 2014/15 yn is na'r hyn a ragwelwyd yn gyffredinol, er ei fod ychydig yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn 2015/16. Dros y ddwy flynedd, mae cyfrifiadau i amcangyfrif effaith gyllidebol ariannu'r dyfarniad cyflog yn golygu ei bod yn bosibl lleihau'r pwysau cost cyffredinol o £54k a gall y lleihad hwn gyfrannu at leihau'r bwlch yn y gyllideb yn 2015/16.

Bydd yn rhaid i gynigion gogyfer â chyllideb derfynol a lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15 fod wedi eu cytuno gan y Cyngor Sir fis Chwefror 2015. Fodd bynnag, yn negfed gweithdy’r gyllideb a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, gwnaeth yr aelodau hynny oedd yn bresennol fynegi barn yn anffurfiol a oedd yn cefnogi cynnydd cyfartalog yn Nhreth y Cyngor o 2.75%. Dyma'r ffigur cynllunio sylfaenol a ddefnyddir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.


Ar 2.75%, nid oes newid i'r gofyniad arbedion ar gyfer 2015/16 a gyda'r cynigion eraill yn yr adroddiad hwn, bydd yn cydbwyso'r gyllideb. Bydd cynnydd is na 2.75% yn arwain at ofyniad arbedion pellach a bydd cynnydd uwch na hyn yn cynhyrchu cyllid ychwanegol. Gan fod rhaid i'r cyngor ariannu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, mae tua 25% o unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn anochel mewn gostyngiadau a ddarperir o dan y Cynllun.

Cafodd yr opsiynau a'r goblygiadau eu cyflwyno yng ngweithdy Rhagfyr yn fanwl ac fe'u crynhoir yn Atodiad 2. Mae dadansoddiad pellach yn dangos sefyllfa Treth y Cyngor ar gyfartaledd Sir Ddinbych o'i gymharu ag i eraill wedi'i gynnwys fel Atodiad 3.

Mae dadansoddiad pellach yn tynnu sylw at effaith y cynnig hwn dros ystod o fandiau eiddo a lefelau incwm wedi ei gynnwys fel Atodiad 4.

Fel rhan o gyllideb 2014/15, cytunwyd fel mesur untro i ddefnyddio balansau cyffredinol o £500k i lenwi'r bwlch yng ngofyniad cyllido'r cyngor. Er mwyn gwneud hyn untro, byddai'n golygu y byddai arbediad parhaol o £500k yn gorfod cael ei ganfod yn 2015/16 i bontio'r bwlch hwn. Yng ngweithdy'r gyllideb mis Rhagfyr, cyflwynwyd dadansoddiad o falansau cyffredinol y cyngor i aelodau a chynnig i barhau i ddefnyddio £500k i ariannu'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae pwysigrwydd lefelau priodol o falansau wedi ei amlygu yn y blynyddoedd diweddar, gyda thywydd garw yn ogystal â hawliad hanesyddol annisgwyl gan ein cwmni yswiriant blaenorol. Ym mhob achos mae'r cyngor wedi gallu ymateb yn briodol gan wybod bod arian ar gael i dalu am unrhyw ymateb a gwaith dilynol. Gyda'r risgiau ac ansicrwydd hyn ynghylch dyfodol llywodraeth leol a gostyngiadau parhaus tebygol i gyllid y sector cyhoeddus, nid lleihau balansau ymhellach yw'r dull mwyaf dymunol o weithredu. Fodd bynnag, mae asesiad o falansau yng nghyd-destun cyllideb refeniw cyffredinol y cyngor yn golygu bod gostyngiad wedi'i reoli dros y tair blynedd nesaf yn ddull derbyniol o weithredu. Mae'r siart isod yn dangos y gostyngiad arfaethedig mewn balansau cyffredinol dros y tair blynedd ariannol nesaf.




Nid yw'r gyllideb ar gyfer 2015/16 yn caniatáu ar gyfer unrhyw bwysau cost sy'n benodol i wasanaeth. Mae chwyddiant wedi ei gynnwys yn y rhagdybiaethau cyllideb yn gorfforaethol i gynnwys eitemau megis ynni, cyflog a chostau pensiwn ychwanegol cyflogwr.

Mae buddsoddi yn y Cynllun Corfforaethol wedi ei gynnig ar lefel o £500k. Mae angen i'r dyraniad arfaethedig o gyllid buddsoddi ar gyfer 2015/16 gefnogi benthyca darbodus ac mae wedi'i rannu fel a ganlyn:

- Moderneiddio Addysg/Ysgolion yr 21ain Ganrif £400k
- Priffyrdd - Gwelliannau Ffyrdd £100k

Mae cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol yn dibynnu ar gyllideb ac adnoddau arian parod i hwyluso Benthyca Darbodus. Mae'r Cynllun presennol yn fforddiadwy cyn belled â bod yr adnoddau a nodwyd i'w ariannu ar gael. Yng ngweithdy'r gyllideb mis Rhagfyr, ailadroddodd yr aelodau hynny oedd yn bresennol farn a fynegwyd yn gyntaf pan gafodd y Cynllun Corfforaethol ei gyflwyno yng ngweithdy'r gyllideb a gynhaliwyd ar 22 Medi, sef fod y mwyafrif yn bresennol yn dymuno sicrhau cyflawni'r Cynllun. Roedd canlyniad gweithdy Rhagfyr yn cryfhau'r farn hon gyda chynnig i gynnwys ymrwymiad i flaenoriaethu cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn rowndiau'r gyllideb yn y dyfodol. Mewn ymateb i hyn, mae argymhelliad ffurfiol wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Mae crynodeb o'r Cynllun Corfforaethol ynghlwm fel Atodiad 5.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol. Mae cynigion y gyllideb yn cynnwys £500k o gyllid ar gyfer ysgolion a phriffyrdd yn unol â'r Cynllun Corfforaethol a chynnig pellach i amddiffyn y cyllid sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'n bosibl bod angen i'r cyngor sicrhau arbedion o tua £17.1 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Bwlch y gyllideb ar gyfer 2015/16 yw £8.259m. Mae arbedion o £7.286m wedi eu cytuno ac mae cynigion pellach yn yr adroddiad hwn yn dod i gyfanswm o £0.473m. Bydd y gweddill, £0.5m, yn cael eu talu o falansau cyffredinol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Cynhaliwyd ymarfer asesu effaith, gan gynnwys Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob un o gynigion arbedion y gyllideb ac fe'i cyflwynwyd i'r cyngor ym mis Medi a mis Rhagfyr. Cafodd asesiad effaith cyffredinol hefyd ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Rhagfyr.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Bu ymgynghori sylweddol o gwmpas proses y gyllideb ac mae wedi cael ei ystyried gan CET, UDA, Briffio Cabinet a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae deg o weithdai cyllideb diwrnod cyfan wedi'u cynnal gydag aelodau etholedig. Mae pwyllgorau craffu wedi adolygu dau gynnig arbedion (TCC a gwasanaethau darparwyr). Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl oruchwylio ac wedi cael adroddiadau i bob un o'i gyfarfodydd ers mis Ebrill.

Ym mis Tachwedd, gofynnodd y pwyllgor am fanylion pellach am ddau gynnig i geisio sicrwydd ar dryloywder y broses.

Roedd yr adroddiad i'r Cyngor ar 9 Rhagfyr yn amlinellu yn fanwl yr ymgynghoriad yn cefnogi proses y gyllideb. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y casgliadau canlynol o Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn adolygiad o drefniadau cynllunio ariannol y cyngor:

- Mae gan y Cyngor hanes da o ran cyflawni arbedion a nodwyd o fewn blwyddyn yn erbyn y camau gweithredu a gymeradwywyd
- Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor yn y dyfodol i sicrhau arbedion yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol
- Nid oes cynigion ar gyfer gwella nac argymhellion yn sgil yr adolygiad hwn.

Yn ogystal â'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, mae'r cyngor wedi rhoi gwybod i bob cyngor Tref a Chymuned ynghylch y toriadau arfaethedig ac mae wedi cynnal cyfarfod ar gyfer yr holl gynghorau er mwyn trafod y cynigion. Mae trafodaethau parhaus rhwng rhai o wasanaethau'r cyngor sir a rhai cynghorau tref ynghylch effaith y cynigion ac a fyddai'r cynghorau tref yn ystyried ariannu rhai o'r gweithgareddau os gwneir y toriadau ai peidio. Mae'r trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt.

Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd, a, lle y bo'n ofynnol, wedi mynychu cyfarfodydd i egluro'r manylion y tu ôl i unrhyw un o'r cynigion.

Mae pob aelod o staff wedi cael gwybod am y broses o bennu'r gyllideb a, lle bydd cynigion yn dod yn benderfyniadau, ymgynghorir yn llawn â'r staff yr effeithir arnynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor.

Yn y cyfarfod cabinet a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, penderfynwyd bod:

> *y Cyngor yn ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad yng ngogledd Cymru i ofyn am eu barn am y gostyngiad yn y cyllid a roddir i briffyrdd Sir Ddinbych a'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y gwelliannau i'r M4.*

Roedd hyn mewn ymateb i ddiwedd cyllid Menter Benthyca Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau priffyrdd. Anfonwyd gohebiaeth at bob Aelod Cynulliad lleol ar 20 Ionawr 2015 yn gofyn iddynt ymateb i Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus. Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu hadrodd i'r Cyngor ar lafar gan Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus.

Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Cytunwyd ar broses ar gyfer ymgysylltu â staff a'u cynrychiolwyr Undeb Llafur yn ystod Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ym mis Medi ac fe gedwir at hyn. Cynigiodd yr un broses y cyfle hefyd i'r Undebau Llafur wneud sylwadau ffurfiol ar gynigion y gyllideb cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cyngor.

Yn y cyfarfod CBYLl a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2015, gofynnodd cynrychiolwyr undebau llafur fod eu gwrthwynebiad parhaus ar bwynt o egwyddor i roi gwasanaethau ar gontractau allanol yn cael ei nodi yn yr adroddiad hwn i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r undebau llafur hefyd yn cydnabod bod gan y cyngor doriadau pellach i'w gwneud yn 2016/17 a bydd y trefniadau cyswllt ffurfiol a'r protocol yn parhau. Mynegodd y cynrychiolwyr undebau llafur eu gwerthfawrogiad o'r cynigion i ddefnyddio balansau a chynyddu Treth y Cyngor i gwrdd â'r bwlch yn y gyllideb.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae hon yn parhau i fod yn broses hynod heriol ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Bydd cymeradwyo'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2015/16, sy'n gyflawniad sylweddol. Fodd bynnag, rhaid i waith i ddatblygu cynigion cyllideb ar gyfer 2016/17 barhau i sicrhau bod y targed arbedion amcangyfrifedig o £8.8m yn cael ei gyflawni. Mae proses y gyllideb hyd yn hyn wedi nodi cynigion gwerth cyfanswm o £2.7m ar gyfer 2016/17, felly mae bwlch sylweddol yn dal i'w lenwi. Mae gweithdai'r gyllideb wedi eu trefnu ym mis Chwefror a mis Mawrth i barhau â'r broses. Mae ymrwymiad a chefnogaeth barhaus yr aelodau etholedig a'r gwasanaethau yn y broses yn hanfodol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu â chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

**Appendix 1 Phase 3 Budget Proposals 2015/16**
**Council February 2015**

**Proposal to Finalise Revenue Budget 2015/16**

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Saving Target 2015/16 (Draft Settlement)** | | **-8,259** |
| Phase 1 Savings | | 3,715 |
| Phase 2 Savings | | 3,571 |
| **Sub Total** | | **-973** |
| **Final Settlement & Other Adjustments:** | | |
| 1. RSG movement +0.016% | 23 | |
| 2. Increase to Council Tax Base | 282 | |
| 3. Passport Reductions to PFI and Council Tax Reduction Scheme Grants | 63 | |
| 4. Fire Service Levy | 51 | |
| | | **419** |
| **Sub Total** | | **-554** |
| Pay Award Provision (2014/15) | | 54 |
| **Sub Total** | | **-500** |
| **Total of Phase 3 Proposals** | | **473** |
| Use of Council's General Balances | | 500 |
| **Budget Shortfall 2015/16** | | **0** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 2**
**Council Tax Analysis**
**Notes**

1. The analysis below shows the additional income that would be raised over a range of Council Tax increases.
2. The 'Base Case' shown is the current planning assumption. Rates below the base will mean more savings will have to be identified.
3. The references to Average Band D and Average Dwelling refer to the total council tax bill including police and community council precepts. The county council element in 2014/15 is £1,112 which represents 81% of the total bill.
4. The average per dwelling gives an indication of the average amount actually paid per dwelling.
5. Denbighshire's Council Tax was the highest in north Wales and sixth highest in Wales in 2014/15.
6. The county council element of the Council Tax bill in Denbighshire is approximately 15% higher than in Conwy.
7. If current planning assumptions for Tax rises are implemented, it is likely Gwynedd's average level of Council Tax at Band D will be higher than Denbighshire's next year.

| | £'000 |
|---|---|
| Yeild 2014/15 | 42,513 |

| | |
|---|---|
| Avg Band D | £1,380 |
| Avg Dwelling | £1,240 |


| | Increase % | Gross Increase £'000 | C/Tax Benefit £'000 | Net Increase £'000 | Additional Income £'000 | Avg Band D Annual Impact | Avg Dwelling Annual Impact |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0.00% | 0 | 0 | 0 | -876.83 | 0 | 0 |
| | 2.00% | 850.26 | -212.57 | 637.70 | -239.14 | £27.60 | £24.80 |
| | 2.50% | 1,062.83 | -265.71 | 797.12 | -79.71 | £34.50 | £31.00 |
| **Base Case** | **2.75%** | **1,169.11** | **-292.28** | **876.83** | **0.00** | £37.95 | £34.10 |
| | 3.00% | 1,275.39 | -318.85 | 956.54 | 79.71 | £41.40 | £37.20 |
| | 3.50% | 1,487.96 | -371.99 | 1,115.97 | 239.14 | £48.30 | £43.40 |
| | 4.00% | 1,700.52 | -425.13 | 1,275.39 | 398.56 | £55.20 | £49.60 |
| | 4.50% | 1,913.09 | -478.27 | 1,434.81 | 557.98 | £62.10 | £55.80 |
| | 5.00% | 2,125.65 | -531.41 | 1,594.24 | 717.41 | £69.00 | £62.00 |


**Appendix 3 Council February 2015**

**Band D Analysis 2014/15 and 2015/16**


| | |
|---|---|
| Denbighshire Average | £1,380 |
| Wales Average | £1,276 |
| North Wales Average | £1,286 |
| English Average | £1,464 |

| | |
|---|---|
| Denbighshire | £1,380 |
| Anglesey | £1,242 |
| Conwy | £1,229 |
| Flintshire | £1,255 |
| Gwynedd | £1,371 |
| Wrexham | £1,238 |
| N Wales Average | £1,286 |




| Band D Analysis Estimated 2015/16 | |
|---|---|
| Denbighshire | £1,417.95 |
| Anglesey | £1,304.10 |
| Conwy | £1,290.45 |
| Flintshire | £1,292.65 |
| Gwynedd | £1,425.84 |
| Wrexham | £1,275.14 |
| N WalesAverage | £1,334.36 |



**Appendix 4 - Council Tax Rise Illustrative Examples**

| | Band A Weekly charge | CTR | Ctax to pay | Increase | Band B Weekly charge | CTR | Ctax to pay | Increase | Band C Weekly charge | CTR | Ctax to pay | Increase | Band D Weekly charge | CTR | Ctax to pay | Increase |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Single aged 23 16 hrs min wage | £13.61 | £5.43 | £8.18 | £0.22 | £15.88 | £7.70 | £8.18 | £0.22 | £18.15 | £9.97 | £8.18 | £0.22 | £20.42 | £12.24 | £8.18 | £0.22 |
| Single over 25 20 hours min wage | £13.61 | £3.23 | £10.38 | £0.14 | £15.88 | £5.50 | £10.38 | £0.14 | £18.15 | £7.77 | £10.38 | £0.14 | £20.42 | £10.04 | £10.38 | £0.14 |
| Lone Parent 1 child WTC 16 hours 126.23 per week | £13.61 | £0.58 | £13.03 | -£0.27 | £15.88 | £2.85 | £13.03 | -£0.27 | £18.15 | £5.12 | £13.03 | -£0.27 | £20.42 | £7.39 | £13.03 | -£0.27 |
| Pensioner SC | £13.61 | £12.36 | £1.25 | £0.15 | £15.88 | £14.63 | £1.25 | £0.15 | £18.15 | £16.90 | £1.25 | £0.15 | £20.42 | £19.17 | £1.25 | £0.15 |
| Pensioner Severely disabled | £13.61 | £0.82 | £12.79 | -£0.01 | £15.88 | £3.09 | £12.79 | -£0.01 | £18.15 | £5.36 | £12.79 | -£0.01 | £20.42 | £7.63 | £12.79 | -£0.01 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 5**

1 **Corporate Plan Summary**

| Projects | 2012/13 ACTUAL £k | 2013/14 ACTUAL £k | 2014/15 ESTIMATES £k | 2015/16 ESTIMATES £k | 2016/17 ESTIMATES £k | 2017/18 ESTIMATES £k | 2018/19 ESTIMATES £k | Total £k |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **21st Century Community Schools (50/50 Split)** | | | | | | | | |
| Rhyl High School / Ysgol Tir Morfa | 25 | 1,053 | 5,245 | 16,074 | 1,856 | 333 | 0 | 24,586 |
| Ysgol Glan Clwyd | 0 | 5 | 465 | 4,978 | 9,146 | 1,068 | 238 | 15,900 |
| Bodnant Community School | 0 | 69 | 620 | 2,099 | 562 | 61 | 0 | 3,411 |
| Ysgol Bro Dyfrdwy | 81 | 1,209 | 119 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,413 |
| **Total 21st Century Community Schools** | **106** | **2,336** | **6,449** | **23,151** | **11,564** | **1,462** | **238** | **45,310** |
| | | | | | | | | |
| **21st Century Schools - Faith Schools (85/15 Split)** | **0** | **13** | **97** | **42** | **5,104** | **11,653** | **6,905** | **23,814** |
| | | | | | | | | |
| **Corporate Plan Potential Projects** | | | | | | | | |
| Ruthin Town School | 0 | 0 | 54 | 619 | 5,150 | 3,063 | 0 | 8,886 |
| Clocaenog / Cyffylliog Area School - Ysgol Carreg Emlyn | 0 | 0 | 8 | 380 | 1,066 | 1,338 | 0 | 2,792 |
| Llanfair / Pentrecelyn Area School | 0 | 0 | 11 | 487 | 1,096 | 1,877 | 0 | 3,471 |
| Ysgol Pendref | 0 | 0 | 0 | 156 | 1,167 | 435 | 0 | 1,758 |
| **Total Potential Projects** | **0** | **0** | **73** | **1,642** | **8,479** | **6,713** | **0** | **16,907** |
| | | | | | | | | |
| **Total Schools Projects** | **106** | **2,349** | **6,619** | **24,835** | **25,147** | **19,828** | **7,143** | **86,031** |
| | | | | | | | | |
| **Extra Care** | | | | **1,000** | **7,500** | **6,700** | **5,800** | **21,000** |
| **Cefndy Health Care Investment** | | **59** | **441** | | | | | **500** |
| **Highways** | | **2,843** | **5,373** | **1,650** | **1,650** | | | **11,516** |
| **TOTAL CORPORATE PLAN PROJECTS** | **106** | **5,251** | **12,433** | **27,485** | **34,297** | **26,528** | **12,943** | **119,047** |

| Funding | 2012/13 ACTUAL £k | 2013/14 ACTUAL £k | 2014/15 ESTIMATES £k | 2015/16 ESTIMATES £k | 2016/17 ESTIMATES £k | 2017/18 ESTIMATES £k | 2018/19 ESTIMATES £k | Total £k |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Schools funding** | | | | | | | | |
| WG - LGBI and Grant | | 1,170 | 3,877 | 12,252 | 6,801 | 11,922 | 6,875 | 42,897 |
| Cash Reserves | | 739 | 2,599 | 10,677 | 3,658 | 1,735 | | 19,408 |
| Prudential Borrowing | | | | 1,890 | 14,688 | 5,933 | 268 | 22,779 |
| Capital Receipts - planned | | | | | 0 | 238 | | 238 |
| Capital Receipts - received | | 376 | | | | | | 376 |
| Other funding used | 106 | 64 | 143 | 16 | | | | 333 |
| **Total Schools Funding** | **106** | **2,349** | **6,619** | **24,835** | **25,147** | **19,828** | **7,143** | **86,031** |
| **Extra Care** | | | | | | | | |
| Contributions (development partner) | | | | 0 | 4,000 | 5,000 | 5,000 | 14,000 |
| Prudential Borrowing | | | | 0 | 3,000 | 440 | 400 | 3,840 |
| Cash Reserves | | | | 1,000 | 500 | 655 | 400 | 2,555 |
| Capital Receipts | | | | | | 250 | | 250 |
| Other - Grants | | | | | | 355 | | 355 |
| **Total Extra Care Funding** | | | | **1,000** | **7,500** | **6,700** | **5,800** | **21,000** |
| **Cefndy Health Care Investment** | | | | | | | | |
| Cash Reserves | | 59 | 441 | | | | | 500 |
| | | | | | | | | |
| **Highways** | | | | | | | | |
| WG - LGBI | | 2,458 | 2,458 | | | | | 4,916 |
| Prudential Borrowing | | 385 | 2,915 | 1,650 | 1,650 | | | 6,600 |
| **TOTAL FUNDING REQUIRED** | **106** | **5,251** | **12,433** | **27,485** | **34,297** | **26,528** | **12,943** | **119,047** |
| **DCC FUNDING ELEMENT** | **106** | **1,623** | **6,098** | **15,233** | **23,496** | **9,606** | **1,068** | **57,234** |

2 **Revenue Budget Allocations - Actual and Planned**

| Programme | 2012/13 £k | 2013/14 £k | 2014/15 £k | Total £k | Balance Remainiing £k | | Priorities 2015/16 £k | Priorities 2016/17 £k |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 Century Schools (Priorities Budget Allocation) | 200 | 200 | 611 | 1,011 | 1,011 | | 400 | 150 |
| Contribution from School Modernisation Programme | | 157 | | 157 | 157 | | | |
| Highways (Priorities Budget Allocation) | 100 | 100 | 100 | 300 | 0 | | 100 | 100 |
| Extra Care Housing (Priorities Budget Allocation) | | 400 | | 400 | 400 | | 0 | 0 |
| **Total** | **300** | **857** | **711** | **1,868** | **1,568** | | **500** | **250** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

| **Cyfarfod** | **Eitem (disgrifiad / teitl)** | | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Angen penderfyniad gan y Cyngor (oes/nac oes)** | **Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt** |
|---|---|---|---|---|---|
| **24 Chwefror 2015** | 1 | Gosod Treth y Cyngor | Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2015/16. | Oes | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady |
| | 2 | Cynllun Cyfalaf 2015/16 | Cymeradwyo Cynllun Cyfalaf y Cyngor ar gyfer 2015/16 | Oes | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady |
| | 3 | Amserlen y Pwyllgor | Cadarnhau'r amserlen ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor | Oes | Y Cynghorydd Barbara Smith / Steve Price |
| | 4 | Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16 | Cymeradwyo'r Datganiad | Oes | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor 16 Mawrth, 2015** | 1 | Gweithdy Dementia | Cyflwyniad i aelodau ar ddementia | Amh. | Y Cynghorydd Bobby Feeley / Nicola Stubbins |
| | 2 | Strategaeth Cyllideb Refeniw a Chyfalaf BIPBC | Trevor Purt (BIPBC) i fynychu | Amh. | Y Cynghorydd Bobby Feely / Nicola Stubbins |
| | 3 | Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych | Cyflwyniad gan y Gwasanaethau Oedolion | Amh. | Y Cynghorydd Bobby Feeley / Phil Gilroy |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **14 Ebrill 2015** | 1 | Ailddatblygu Ysgol Glan Clwyd | Ystyried yr achos busnes llawn ar gyfer y cynllun | Oes | Y Cynghorydd Eryl Williams / Peter Clayton |
| | 2 | Polisi Tâl | Cymeradwyo'r Polisi Tâl | Oes | Y Cynghorydd Barbara Smith / Catrin E. Roberts |
| | 3 | Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Corfforaethol | Derbyn Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Corfforaethol | | Y Cynghorydd Jason McLellan / Gary Williams |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **12 Mai 2015- Cyfarfod Blynyddol** | 1 | Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio'r Cyngor | Ystyried yr Adroddiad Blynyddol | Nac Oes | Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu / Steve Price / Rhian Evans |
| | 2 | Strategaeth Tai Lleol | Cytuno ar y Strategaeth Tai Lleol | Oes | Y Cynghorydd Hugh Irving / Graham Boase / Sue Lewis |
| | 3 | Dogfen Gyflenwi Flynyddol ar Gyfer y Cynllun Corfforaethol | Aelodau i gymeradwyo fersiwn derfynol y Ddogfen Gyflenwi | Oes | Y Cynghorydd Barbara Smith/ Alan Smith |

<u>Materion ar gyfer Amserlen 2015/2016</u>

| **Cyfarfod** | **Eitem (disgrifiad / teitl)** | | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Angen penderfyniad gan y Cyngor (oes/nac oes)** | **Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt** |
|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | Plant sy'n Derbyn Gofal | Cyflwyniad gan y Gwasanaethau Plant | Amh. | Y Cynghorydd Bobby Feeley / Rhiain Morlle / Liz Griffin |
| | 2 | Spectrwm | Cefyn Campbell (Spectrwm) i fynychu | Amh. | Y Cynghorydd Huw Jones |

***<u>Nodyn i swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiad Cyngor Llawn</u>***

| *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| *3 Chwefror* | ***19 Ionawr*** | *24 Chwefror* | ***9 Chwefror*** | *Ebrill* | ***27 Mawrth*** |

<u>Diweddarwyd 20/01/2015 SLW</u>

Council Work Programme.doc